**Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau'r Cynulliad

30 Hydref 2015

**Bil Cymru drafft Llywodraeth y DU**

Yn dilyn fy natganiad llafar ddydd Mawrth 20 Hydref, addewais anfon tabl atoch o Ddeddfau'r Cynulliad a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cael y Cydsyniad Brenhinol ond a fyddai y tu allan i gymhwysedd o dan Fil drafft Cymru. Amgaeir y tabl hwn.

Mae'r deunydd hwn yn grynodeb o'r dadansoddiad manwl a roddais i'r Ysgrifennydd Gwladol yn fy llythyr 7 Medi (ac fe'i cynhwysir yn yr ohebiaeth a roddais yn y llyfrgell er budd yr Aelodau ddydd Mawrth (yn benodol Tabl 1, tud 62-67)), ond wedi'i diweddaru i gymryd y Bil drafft cyhoeddedig i ystyriaeth.

Roedd y Ddeddf Trais Domestig a'r Ddeddf Safonau Ysgolion yn sbarduno cymalau cadw sydd wedi newid ers cael y Bil drafft oddi wrth Lywodraeth y DU ar ddiwedd Gorffennaf a'r Bil a gyhoeddwyd ar 20 Hydref. Bydd angen rhoi ystyriaeth bellach i'r cwestiwn a allai'r deddfau hyn fod wedi cael eu pasio o dan Fil Cymru yng ngoleuni'r cymalau cadw diwygiedig hyn.

Yn gywir

**CARWYN JONES**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
YP.PrifWeinidog@cymru.gsi.gov.uk • ps.firstminister@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Tabl o ddarpariaethau Deddfau'r Cynulliad a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru sydd wedi cael y Cydsyniad Brenhinol ond na allai gael eu deddfu o dan Fil Cymru a gyhoeddwyd ar 20 Hydref 2015**

| **Deddf y Cynulliad** | **Darpariaeth(au) perthnasol** | **Rhesymau paham na fyddai modd deddfu'r un ddarpariaeth o dan setliad Bil Cymru newydd** |
|---|---|---|
| Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012 | Yn gyffredinol | Paragraffau 3 a 4 o Atodlen 7B (cyfraith trosedd a chosbau sifil) o ganlyniad i'r pwerau i greu troseddau a chosbau penodedig.<br><br>Paragraff 8 o Atodlen 7B.<br>Byddai Cydsyniad Gweinidogion y Goron wedi bod yn ofynnol.<br><br>Mae'r Ddeddf yn gorfodi swyddogaethau ar awdurdodau lleol. Nid yw'n glir a yw awdurdodau lleol yn "Welsh public authorities" at ddibenion cymal cadw 218 o Atodlen 7A a Pharagraff 8 o Atodlen 7B oherwydd eu swyddogaethau heb eu datganoli a phwerau sy'n ymarferadwy y tu allan i Gymru. |
| Deddf Sgôr Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 | Adran 14 | Byddai gorfodi swyddogaethau ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi tramgwyddo'r gwaharddiad ar orfodi swyddogaethau ar awdurdodau cadwedig (Paragraff 8 o Atodlen 7B).<br><br>Byddai Cydsyniad Gweinidogion y Goron wedi bod yn ofynnol. |
| Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 | Yn gyffredinol<br><br>Yn benodol: Atodlen 4, paragraff 24 | Mae'n amheus a fyddai Swyddfa Archwilio Cymru a/neu Archwilydd Cyffredinol Cymru yn bodloni'r diffiniad o "Welsh public authority" yng nghymal cadw 218 o Atodlen 7A a pharagraff 8 o Atodlen 7B o ganlyniad i'r angen i'w swyddogaethau fod yn "exercisable only in relation to Wales" ac "wholly or mainly functions that do not relate to reserved matters".<br><br>Gallai Cydsyniad Gweinidogion y Goron fod wedi bod yn ofynnol. |

| Deddf y Cynulliad | Darpariaeth(au) perthnasol | Rhesymau paham na fyddai modd deddfu'r un ddarpariaeth o dan setliad Bil Cymru newydd |
|---|---|---|
| | | |
| Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 | Adran 49(7) a Rhan 5 | Byddai Cydsyniad Gweinidogion y Goron wedi bod yn ofynnol.<br><br>Sbarduno cymal cadw 154 (cyflogaeth a chysylltiadau diwydiannol) oherwydd cyflwyno swyddogaethau i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol i wneud argymhellion i awdurdodau perthnasol ynghylch newidiadau arfaethedig i gyflogau penaethiaid gwasanaeth â thâl ac unrhyw bolisïau ynghylch tâl o'r fath. |
| Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) 2013 | Adran 15 | Byddai gorfodi swyddogaethau ar yr Awdurdod Meinweoedd Dynol wedi tramgwyddo'r gwaharddiad ar orfodi swyddogaethau ar awdurdodau cadwedig (paragraff 8 o Atodlen 7B).<br><br>Byddai Cydsyniad Gweinidogion y Goron wedi bod yn ofynnol. |
| Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014 | Adran 4 | Gallai'r diffiniad o 'business association' yn Adran C1 (cymalau cadw 63 a 64) gwmpasu sefydliadau dynodedig (math o sefydliad addysg bellach sydd fel rheol yn gwmnïau cyfyngedig trwy warant) na fydd o bosibl yn bodloni'r eithriad sy'n ymwneud â chyrff cyhoeddus. |
| Deddf Rheoli Ceffylau (Cymru) 2014 | Adran 7 | Mae'r adran hon yn ymwneud â'r weithdrefn datrys anghydfod ar gyfer anghytundeb rhwng perchnogion ceffylau a'r awdurdod lleol.<br><br>Sbarduno cymal cadw 184 (cymrodeddu). |

| Deddf y Cynulliad | Darpariaeth(au) perthnasol | Rhesymau paham na fyddai modd deddfu'r un ddarpariaeth o dan setliad Bil Cymru newydd |
|---|---|---|
| Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | Adrannau 78, 85, 127, 134, 138, 139 a Rhan 4. | Gallai Adran 127 (s'n ymwneud â gorchmynion amddiffyn oedolion) ac Adran 78 (sy'n ymdrin ag amddiffyn aelodau o'r cyhoedd rhag anaf difrifol) ymwneud â chymal cadw 42 (cynnwys Rhannau 1 i 6 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014).<br><br>Gallai Adran 85 ac Atodlen 1 (sy'n ymwneud â thaliadau mewn perthynas â gofal gan y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant) ymwneud â chymalau cadw 141 a 142 (cymorth plant).<br><br>Mae Adran 134 yn dynodi prif swyddog yr heddlu ar gyfer ardaloedd penodedig yr heddlu fel partner ar fyrddau diogelu.<br><br>Byddai hyn y tu allan i gymhwysedd o ganlyniad i un neu ragor o gymalau cadw 38-40.<br><br>Byddai Adrannau 138 a 139 (sy'n ymwneud â byrddau diogelu a'u partneriaid) wedi gofyn am gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol o dan baragraff 8 o Atodlen 7B.<br><br>Gallai Rhan 4 - elfennau ar ddyletswyddau sy'n ymwneud â'r rhai a gedwir yn yr ystad ddiogeledd ymwneud â chymal cadw 192 (rheoli troseddwyr). |
| Deddf y Sector Amaethyddol (Cymru) 2014 | Adran 5 yn ei pherthynas ag Adran 24 o Ddeddf yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol 1998 | Byddai Cydsyniad Gweinidogion y Goron wedi bod yn ofynnol. |
| Deddf Tai (Cymru) 2014 | Adran 95 | Byddai Paragraff 8 o Atodlen 7B wedi golygu y byddai Cydsyniad Gweinidogion y Goron wedi bod yn ofynnol ar gyfer cyflwyno swyddogaeth |

| Deddf y Cynulliad | Darpariaeth(au) perthnasol | Rhesymau paham na fyddai modd deddfu'r un ddarpariaeth o dan setliad Bil Cymru newydd |
|---|---|---|
| | | cydweithrediad awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus eraill yn Lloegr. |
| Addysg Uwch (Cymru) 2015 | Y Ddeddf Gyfan | Mae'n amheus a yw Cyngor Addysgu Uwch Cymru yn 'Welsh public authority' at ddibenion paragraff 8 o Atodlen 7B, gan ei bod yn ymarfer rhai swyddogaethau yn Lloegr.<br><br>Gallai Cydsyniad Gweinidogion y Goron fod wedi bod yn ofynnol felly. |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Adran 30 ac yn gyffredinol. | Mae Adran 30 yn awdurdodi bwrdd gwasanaethau cyhoeddus i wahodd cyfranogiad y Comisiynydd Heddlu a Throseddu perthnasol a'r prif gwnstabl. Gallai hyn fod y tu allan i gymhwysedd un neu ragor o gymalau cadw 38-41.<br><br>Mae'n debygol iawn y byddai darpariaethau'r Ddeddf yn 'regulation' gan syrthio felly y tu allan i gymhwysedd y Cynulliad mewn perthynas â'r eithriad cyntaf yng nghymal cadw 206.<br><br>Byddai'r diffiniad o 'Welsh Public Authority' yng nghymal cadw 218 o Atodlen 7A a Pharagraff 8 o Atodlen 7B hefyd wedi cyfyngu ar gymhwysedd y Cynulliad.<br><br>Byddai Cydsyniad Gweinidogion y Goron wedi bod yn ofynnol. |
| Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 | Adran 50 a pharagraff 27 o Atodlen 5<br><br>Paragraffau 15 ac 16 o Atodlen 4. | Sbarduno cymal cadw 183 (cynnwys Deddf Ymchwiliadau 2005).<br><br>Sbarduno cymal cadw (un awdurdodaeth gyfreithiol Cymru a Lloegr a Thribiwnlysoedd). |
| Deddf Cymwysterau | Adran 35 | Gallai'r ddarpariaeth hon fod yn gyfystyr ag addasiad o swyddogaethau |

| Deddf y Cynulliad | Darpariaeth(au) perthnasol | Rhesymau paham na fyddai modd deddfu'r un ddarpariaeth o dan setliad Bil Cymru newydd |
|---|---|---|
| (Cymru) 2015 | | Ofqual ac felly byddai Cydsyniad Gweinidogion y Goron fod wedi bod yn ofynnol o dan Baragraff 8 o Atodlen 7B. |